Cyllid &
Thollau EM

Mehefin 2022

Annwyl [trader name/customer]

## Dylech nawr ddechrau symud i'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau

Gwnaethom ysgrifennu atoch ym mis Mawrth ynghylch newidiadau sydd ar y gweill i systemau tollau'r DU – p'un a ydych yn gwneud eich datganiadau eich hun neu'n defnyddio cyfryngwr, mae'n rhaid i chi weithredu nawr i gynllunio eich symudiad i'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau fel y gallwch barhau i fasnachu.

Mae'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau yn blatfform Technoleg Gwybodaeth fodern a diogel sy'n disodli System y Tollau ar gyfer Trin Nwyddau a Gaiff eu Mewnforio a'u Hallforio (CHIEF).

Bydd cau CHIEF yn digwydd mewn dau gam:

**Cam un:** ar ôl 30 Medi 2022, bydd y gallu i wneud datganiadau mewnforio yn dod i ben.

**Cam dau:** ar ôl 31 Mawrth 2023, bydd y gallu i wneud datganiadau allforio yn dod i ben.

## Os ydych yn defnyddio cyfryngwr i gyflwyno datganiadau tollau ar eich rhan

Mae angen i chi ddarganfod a yw'r cyfryngwr yn dal i ddefnyddio CHIEF. Os ydyw, dylech ddilyn y camau yn y Rhestr wirio ar gyfer masnachwyr er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gallu symud eich datganiadau i'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau cyn y bydd CHIEF yn cau. Ewch i GOV.UK a chwilio am 'Customs Declaration Service communication pack'.

Mae angen i chi wneud hyn nawr oherwydd y gall gymryd amser i gwblhau'r symudiad, neu efallai na fyddwch yn gallu parhau i fasnachu unwaith y bydd CHIEF yn cau.

## Os ydych yn gwneud datganiadau eich hunan

Bydd CHIEF yn cau ar gyfer datganiadau mewnforio ymhen ychydig fisoedd. Ar ôl 30 Medi 2022, byddwch yn gallu gwneud datganiadau mewnforio gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau yn unig.

Gall gymryd amser i fusnesau gwblhau'r symudiad felly mae angen i chi ddechrau symud cyn gynted â phosibl neu efallai na fyddwch yn gallu parhau i fasnachu unwaith y bydd CHIEF yn cau.

Rydym wedi cynllunio gwasanaeth Ymarfer Gwisg ar gyfer Masnachwyr i'ch helpu i ymarfer senarios busnes realistig gan ddefnyddio data eich cyfrif eich hun, profi eich meddalwedd a hyfforddi eich staff ar sut i ddefnyddio'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau, i gyd heb risg. Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn cyn i chi symud i'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau, fodd bynnag byddem yn dal i'ch annog i symud cyn gynted â phosibl gan y bydd yn cymryd peth amser i symud eich busnes drosodd.

I wneud yn siŵr eich bod yn gwybod yr hyn y mae angen i chi ei wneud, ewch i GOV.UK a chwilio am 'using the Trader Dress Rehearsal service'.

Dylech gael sgwrs â'ch darparwr meddalwedd ynghylch goblygiadau symud i'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau.

Gallwch hefyd ddewis gweithio gyda chyfryngwr sydd eisoes wedi symud i'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau. Er mwyn sicrhau eich bod ar y gwasanaeth cyn bod CHIEF yn cau, gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfryngwyr hyn ar GOV.UK drwy chwilio am 'appoint someone to deal with customs on your behalf'.

## Manteision y Gwasanaeth Datganiadau Tollau

Mae'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau yn helpu eich busnes i arbed amser, clirio nwyddau yn ddi-oed a rheoli cyllid drwy:

- eich galluogi i gyflwyno dogfennau tollau'n ddigidol ac yn ddiogel gan ddefnyddio'r gwasanaeth Uwchlwytho Ffeiliau Diogel
- darparu mynediad at eich holl wybodaeth ariannol drwy un dangosfwrdd ariannol lle gallwch weld datganiadau cyfrif, gwneud taliadau a rheoli awdurdod sefydlog
- rhoi hysbysiadau a rhybuddion amser real ar eich holl ddatganiadau tollau a symudiadau, ac
- eich galluogi i reoli cyllid eich busnes drwy agor cyfrif gohirio tollau, gwneud taliadau â cherdyn neu drosglwyddiad banc gan alluogi eich nwyddau i glirio yn ddi-oed.

## Help a chymorth

Ewch i GOV.UK a chwilio am y canlynol:

- 'Customs Declaration Service' i gael rhagor o wybodaeth am fewnforio ac allforio
- 'get access to the Customs Declaration Service' i gofrestru a defnyddio'r gwasanaeth
- 'duties and VAT on imports' i gael gwybodaeth am sefydlu tollau a TAW, gan gynnwys cyfrifon gohirio tollau
- 'direct debit Customs Declaration Service' i gael gwybod sut i greu Debyd Uniongyrchol os ydych wedi creu cyfrif gohirio tollau
- 'using the Trader Dress Rehearsal service' i gael gwybod sut y gallwch ymarfer defnyddio'r Gwasanaeth Datganiadau Tollau
- 'software developers providing customs declaration software' i gael rhestr o ddatblygwr meddalwedd sy'n darparu meddalwedd.

Os oes gennych gwestiwn ynghylch y Gwasanaeth Datganiadau Tollau o hyd, neu os oes angen help arnoch gydag un o'n systemau TG, ffoniwch ein llinell gymorth Cymraeg ar gyfer TAW ac Ecséis ar 0300 200 3705. Mae'r llinell gymorth ar gael o 8.30am i 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

## Rheolaethau mewnforio newydd wedi'u gohirio hyd nes 2023

Ar 28 Ebrill 2022, cyhoeddwyd dull newydd o reoli mewnforion i helpu i leddfu pwysau costau byw. Ni fydd gweddill y rheolaethau mewnforio ar nwyddau'r UE yn cael eu cyflwyno eleni mwyach. Yn lle hynny, bydd masnachwyr yn parhau i symud eu nwyddau o'r UE i Brydain Fawr fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.


Bydd y Llywodraeth yn adolygu sut i weithredu'r rheolaethau hyn sy'n weddill mewn ffordd well sy'n gwneud defnydd o bŵer data a thechnoleg gyda rhagor o fanylion i ddilyn yn yr hydref.

Ni fydd y rheolaethau mewnforio canlynol y cynlluniwyd eu cyflwyno bellach yn cael eu cyflwyno o fis Gorffennaf 2022 ymlaen:

- gofyniad i symud gwiriadau Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) pellach ar fewnforion o'r UE, sydd ar hyn o bryd yn digwydd yn y gyrchfan, i Fan Rheoli wrth y Ffin (BCP)
- gofyniad am ddatganiadau Diogelwch ar fewnforion o'r UE
- gofyniad am ardystiad iechyd pellach a gwiriadau SPS ar gyfer mewnforion o'r UE
- gwaharddiadau a chyfyngiadau ar fewnforio cigoedd oer o'r UE.

Fodd bynnag, os ydych yn mewnforio nwyddau o'r UE i Brydain Fawr a'ch bod wedi dewis cyflwyno datganiadau Diogelwch ar y symudiadau hynny, gallwch barhau i wneud hynny ar sail wirfoddol.

Yn gywir,



Carol Bristow

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Ffiniau a Masnachu, CThEM